# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Diweddariad ynghylch cynnydd o ran cyflawni argymhellion y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 33.16 |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ceri Davies |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Simon Neale |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Nodi a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ein cynnydd o ran cyflawni argymhellion adolygiad y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u>:** Mae'r rhaglen waith hon yn gam pwysig tuag at gyflawni ein Hegwyddorion Rheoleiddio, gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn greiddiol i'n gwaith. Er mai argymhellion y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio sy'n llywio ein gwaith ar hyn o bryd, bwriedir i'r camau gweithredu a gymerir gyd-fynd â'n rhaglen barhaus o weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chamau gweithredu hirdymor.<br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:** Mae'r bwriad i weithio mewn modd integredig yn cyd-fynd ag argymhellion y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio. Mae sawl un o'r argymhellion yn pwysleisio'r angen am gyfathrebu gwell rhwng timau yn Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn fwy eang â rhanddeiliaid.<br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:** Darn o waith mewnol yw'r rhaglen, ond trwy ei heffaith ar ein gweithrediadau rheoleiddio bydd yn cael effaith gadarnhaol ehangach. Bydd y rhaglen Sicrhau Sylw i Gwsmeriaid, y mae'r rhaglen hon yn cyd-fynd yn agos â hi, yn allweddol o safbwynt sicrhau bod ein dull gweithredu wedi'i gynllunio i wasanaethu ein holl randdeiliaid.<br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:** Mae'r rhaglen waith wedi'i chynllunio mewn cydweithrediad â sawl tîm ar draws y sefydliad a bydd yn cael ei gweithredu yn yr un modd. Fe'i trafodwyd hefyd â Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio. Mae'r dull hwn o weithredu'n cynnig sawl mantais allweddol gan gynnwys arbedion gwell o ran adnoddau a |

| | |
|---|---|
| | chefnogaeth well gan randdeiliaid o'r dechrau.<br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:** Bydd gweithredu'r argymhellion yn sicrhau ein bod yn dal i gael ein hystyried yn rheoleiddiwr effeithiol, a bydd yn gwarchod ein henw da ac yn caniatáu i ni barhau i ddefnyddio ein pwerau. |

## Mater

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r argymhellion a geir yn nogfen y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio, *"A Review of Natural Resources Wales against the Principles of Good Regulation"*[1]. Cafodd y Bwrdd adroddiadau blaenorol am adolygiad y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio o weithgareddau rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru a'r modd yr ydym yn bodloni Cod y Rheoleiddwyr[2] ym mis Gorffennaf 2015, mis Chwefror 2015 a mis Hydref 2014. Gofynnwyd am ddiweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd.

2. Mae ein 'Hegwyddorion Rheoleiddio'[3] diwygiedig, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2016, yn disgrifio ein dull o reoleiddio er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Bydd yr Egwyddorion hyn a'r Adolygiad Maes Busnes ar gyfer Rheoleiddio yn darparu fframwaith, ochr yn ochr â Chod y Rheoleiddwyr, a fydd yn ein helpu i ymgorffori egwyddorion 'rheoleiddio da' yn ein gwaith.

## Cefndir

3. Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Cyfoeth Naturiol Cymru, a gynhaliwyd gan y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio tua diwedd 2014/15. Mae'r Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio yn rhan o'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn San Steffan.

4. Bu'r Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio yn adolygu'r modd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu Cod y Rheoleiddwyr, sy'n ofynnol er mwyn caniatáu i ni barhau i ddefnyddio Sancsiynau Sifil fel yr eglurir yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008. Byddai'r adolygiad hefyd yn penderfynu a ydym yn rheoleiddiwr addas i'r diben. Mae'r Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio yn defnyddio diffiniad eang o reoleiddio: roedd ei hadolygiad yn ymdrin â sawl agwedd ar ein gwaith, a oedd yn amrywio o'n gwerthoedd a'n diwylliant, a'n hagwedd at degwch a thryloywder, i'r modd yr ydym yn rheoli data ac yn darparu cymorth i fusnesau dyfu. Bu'r Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio hefyd yn archwilio'r modd yr ydym yn darparu cyngor ac arweiniad ac yn cyflawni gwaith trwyddedu, gwaith ar gydymffurfio a gwaith gorfodi gan ystyried enghreifftiau o bob rhan o'n gwaith rheoleiddio.

5. Roedd canfyddiadau adolygiad y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio yn gadarnhaol ac yn dangos ein bod yn cydymffurfio â Chod y Rheoleiddwyr i raddau helaeth. Nododd y Swyddfa fod y tîm adolygu wedi'i argyhoeddi ddigon o fwriad Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni rhagoriaeth yn ei waith rheoleiddio trwy'r ymrwymiadau a wnaed ganddo, y datblygiadau polisi sydd ar waith a'r dyheadau i feithrin gallu'r staff. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa ym mis Mehefin 2015, yn pennu'r argymhellion y mae'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru fynd i'r afael â nhw cyn ei adolygiad nesaf, ymhen 3 blynedd. Roedd yr argymhellion yn cynnwys y canlynol:
    - *Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gadarnhau ei egwyddorion rheoleiddio yn derfynol a dechrau eu rhoi ar waith.*
    - *Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i ryngwyneb gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, mae angen gwneud mwy o waith o hyd.*
    - *Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gydnabod gallu byd busnes i gyfrannu at y canlyniadau y mae'n dymuno eu gweld, a manteisio ar y gallu hwnnw.*

---

[1] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio, "A Review of Natural Resources Wales against the Principles of Good Regulation" – Mehefin 2015 http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10285/gen-ld10285-e.pdf

[2] Cod y Rheoleiddwyr - https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/300126/14-705-regulators-code.pdf

[3] Ein dull o reoleiddio er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy – ein hegwyddorion rheoleiddio.

- *Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried adolygu ei ddogfennau polisi ac arweiniad er mwyn egluro'n fwy penodol sut y mae'n lleihau baich ei weithgarwch rheoleiddio a sut y mae'n cynorthwyo'r sawl a gaiff eu rheoleiddio ganddo i gydymffurfio a thyfu.*

**Asesiad**

6. Ers y diweddariad blaenorol, mae Grŵp Rheoleiddio'r Dyfodol wedi cynnal cyfres o drafodaethau â staff ar draws y busnes mewn meysydd gwaith allweddol sy'n ganolog i'r gwaith o gyflawni argymhellion y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio. Mae'r broses hon wedi arwain at nodi arweinwyr prosiect ar gyfer cydgyflawni elfennau o raglen waith wedi'i blaenoriaethu (Atodiad 1) sy'n cynnwys yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r argymhellion.

7. Mae'r rhaglen wedi cael ei blaenoriaethu ar sail yr effaith ar ein cwsmeriaid (h.y. gwella ein gwasanaeth) a maint y dasg sy'n ofynnol. Mae nifer o argymhellion a oedd yn flaenoriaeth uchel eisoes wedi cael sylw, e.e. cwblhau fersiwn derfynol ein dogfen 'Egwyddorion Rheoleiddio', datblygu proses apelio anffurfiol a darparu cymorth technegol ar-lein ar ffurf cwestiynau cyffredin yn ymwneud ag ymholiadau rheoleiddio ar gyfer staff rheng flaen Cyfoeth Naturiol Cymru.

8. Yn ddiweddar bu i ni rannu ein dull gweithredu a'n model arfaethedig ar gyfer cyflawni Adolygiad Maes Busnes ar gyfer Rheoleiddio â'r Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio. Gwnaed hynny mewn gweithdy ar y cyd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2016 a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar flaenoriaethu ar sail risg a mesur canlyniadau. Er i rai meysydd ar gyfer gwella gael eu nodi (e.e. rôl gwerthoedd, diwylliant a chymhwysedd yn y gymuned reoleiddio; tryloywder yn seiliedig ar risg), byrdwn cyffredinol y gweithdy oedd bod y Swyddfa yn deall y dull gweithredu a ddefnyddiwyd gennym hyd yn hyn yng nghyd-destun ehangach newid busnes yn Cyfoeth Naturiol Cymru (wrth gyflawni ei hargymhellion). Darparwyd crynodeb drafft i'n helpu i ganolbwyntio ar y pethau perthnasol ac rydym yn disgwyl cael adroddiad terfynol ynghylch y gweithdy yn fuan.

9. Felly, mae'r rhaglen waith yn ceisio blaenoriaethu'r gweithgareddau er mwyn ymateb i arweiniad y Swyddfa gan ganolbwyntio ar hyfforddi staff, adolygu effeithiolrwydd gweithgareddau rheoleiddio a gwella gwefan y busnes dros y 6 – 12 mis nesaf. Ceir allbynnau tymor canolig hefyd.

10. At hynny (yn dilyn cais gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol) mae'r rhaglen waith wedi'i rhoi i swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o'n diweddariadau rheolaidd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni argymhellion y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio.

**Argymhelliad**

11. Bod y Bwrdd yn nodi'r cynnydd hyd yn hyn a'r camau nesaf i gyflawni'r rhaglen waith.

**Prif risgiau**

12. Byddai methu â gweithredu argymhellion y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio yn golygu gweithredu'n groes i God y Rheoleiddwyr a gallai olygu ein bod yn cael ein hatal rhag defnyddio Sancsiynau Sifil. Byddai hynny'n peri risg sylweddol i enw da Cyfoeth Naturiol Cymru ymhlith ei gwsmeriaid a'i bartneriaid, a byddai'n cyfyngu ar ein gallu yn y dyfodol i ymateb i broblemau cydymffurfio â rheoliadau gwastraff, troseddau'n ymwneud â gwastraff a gwaith gorfodi yng nghyswllt pysgodfeydd. Ni fyddai'n fuddiol chwaith o ran cefnogi ein diben newydd.

**Goblygiadau ariannol**

13. Roedd angen buddsoddi adnoddau er mwyn gweithredu’r argymhellion, fel y nodir yn y tabl yn Atodiad 1. Fodd bynnag, gwnaed iawn am hynny trwy gysylltu’r rhaglen waith â rhaglenni gwaith cyfredol gan gynnwys yr Adolygiadau o Feysydd Busnes sy’n mynd rhagddynt a’r gwaith ar Sicrhau Sylw i Gwsmeriaid. Os oes modd cysylltu camau gweithredu â’i gilydd heb eu haddasu fawr ddim, mae modd cyflawni manteision lluosog heb fuddsoddi gormod. Mae gan argymhelliad y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio ynghylch adolygu a symleiddio dogfennau arweiniad y potensial i effeithio’n sylweddol ar adnoddau, oherwydd bod llawer iawn o ddogfennau arweiniad wedi’u cynhyrchu gan y cyrff a oedd yn rhagflaenu Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff amcangyfrif maint y dasg hon ei ystyried yn flaenoriaeth sydd i’w chyflawni’n syth, yn dilyn cael eglurder gan yr Adolygiadau o Feysydd Busnes. Felly, mae’r ffigurau yn geidwadol ar hyn o bryd.

**Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb**

14. Ni chynhaliwyd asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y gwaith hwn. Bydd y wybodaeth reoleiddio a ddarperir gennym yn hygyrch, fel sy’n ofynnol gan God y Rheoleiddwyr. Bydd angen i ni ystyried darparu ein cyngor a’n harweiniad mewn fformatau eraill, er enghraifft, fformat hawdd ei ddarllen.

**Atodiad:**

1. Rhaglen waith wedi’i blaenoriaethu.